



Ein Cyf: OQ59398

Llŷr Gruffydd AS  
Aelod Rhanbarthol o'r Senedd Gogledd Cymru

[Llyr.Gruffydd@senedd.cymru](mailto:Llyr.Gruffydd@senedd.cymru)

5 Mehefin 2023

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i egluro'r sylwadau a wnes i wrth ymateb i gwestiynau a ofynnodd yn y sesiwn Cwestiynau Llafar yn y Siambr ar 26 Ebrill 2023. Wrth ymateb i'ch cwestiwn ar fynediad at ddeintyddion i blant, dywedais:

26/04/2023 15:06:36 paragraff 131 - *"Yn amlwg, rŷn ni nawr yn negodi ar gyfer y cytundeb nesaf, ac mae'n anodd achos, wrth gwrs, beth rŷn ni'n ei weld yw bod rhai deintyddion yn gadael y gwasanaeth iechyd ac yn mynd yn breifat. Wel, maen nhw'n unigolion; dyn nhw ddim yn gweithio yn uniongyrchol i'r NHS-dyw deintyddion byth wedi gweithio yn uniongyrchol i'r NHS-a gallwn ni ddim ond mynd mor bell ag y gallwn ni fforddio i dalu'r bobl yma i weithio yn ein system ni".*

Wrth fyfyrto, gellid dehongli'r hyn a ddywedais i fod yn cyfeirio at bob deintydd a bod y penderfyniad i symud i bractis preifat yn cael ei wneud ar sail ariannol, ac nid dyna roeddwn i'n trio ei gyfleu. Mae llawer o ddeintyddion yn gweithio mewn ysbytai a gwasanaethau deintyddol cymunedol ac yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG. Bwriad fy sylw oedd cyfeirio at y stryd fawr neu, i ddefnyddio'r derminoleg briodol, y practisau deintyddol hynny sydd â contract gyda'r GIG i ddarparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol.

Y pwynt roeddwn yn ceisio ei wneud oedd cydnabod bod rhai deiliaid contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol wedi symud tuag at ofal preifat yn unig eleni ac fel contractwyr annibynnol nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG, mae hwn yn ddewis y maent yn rhydd i'w wneud ar sail eu hamgylchiadau eu hunain. Mae gan contract GIG lawer o fuddion i'r deintydd megis: y sicrwydd o alw ar eu gwasanaeth gan gleifion, refeniw dibynadwy, pensiwn ac absenoldeb mamolaeth. Fodd bynnag, mae rhai deintyddion yn teimlo bod darparu gwasanaeth i gleifion preifat yn unig yn rhoi hyblygrwydd iddynt ddarparu ystod ehangach o wasanaethau deintyddol sy'n fwy manteisiol yn ariannol a/neu sy'n gofyn iddynt weld llai o gleifion. Yn y pen draw, mae'n anodd mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol i'r GIG gynnig mwy o arian neu arian cyfatebol o'i gymharu â'r hyn y gall deintydd ei ennill yn breifat.

Mae angen i mi egluro hefyd bod y broses negodi ar gyfer y contract newydd wedi dechrau ond bod y trafodaethau, o amgylch y bwrdd, bydd yn dechrau'r mis hwn. Fy ngobaith yw y bydd hyn yn rhoi cyfle i'r llywodraeth, y GIG ac undebau llafur weithio gyda'i gilydd i ddatblygu contract newydd sy'n sicrhau bod ymgymryd â gweithgarwch dan contract y GIG yn ddeniadol ar gyfer y tymor hir.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd er mwyn iddo gael ei atodi i Gofnod y Trafodion ar gyfer y trafodaethau yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ebrill.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services